# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 24 Hydref 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Pearl Evans

**Cyngor Sir:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyng. Einir Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Neville Hughes a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**Hyfforddiant ar gyfer y diffibriliwr** – Y Cyng. Walter Williams wedi awgrymu bod angen trefnu digwyddiad gan bod diffibriliwr wedi ei osod tu allan i swyddfa Ogwen. Adroddwyd bod noson o hyfforddiant wedi ei drefnu yn Nhal y bont diwedd mis Tachwedd a bod croeso i unrhyw un fynychu. Y Clerc i anfon y manylion at bawb. Trafodwyd cael noson o hyfforddiant ym Methesda yn y dyfodol.
**Cyffordd A5 ger Copa** – problem gweleded gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**Cyffordd A5 Lôn Newydd Coetmor**- cyffordd perygl i dynnu allan i'r ffordd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Y Gofeb** - angen ei glanhau a thacluso'r safle erbyn Sul y Cofio. Contractwr am wneud erbyn y gwasanaeth.
**5.2 Offer cae chwarae Pantdreiniog –** Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod y prisiau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw eu gofynion sylfaenol ar gyfer llawr i'r cae chwarae, gan

bod llawr 'rubber mulch' a 'wetpour' yn ddrud ofnadwy. Bydd angen i'r Is-bwyllgor a'r Pwyllgor Cyllid drafod y ffigyrau ymhellach.
**5.3** Arwyddion newydd Ogwen Bank – arwyddion mawr uniaith Saesneg wedi eu gosod ar ochr y ffordd. Ein sylwadau wedi eu hanfon at Swyddog Cynllunio, Cyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd yn trafod gyda'r perchnogion ac hefyd yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
**5.4 John Street** – penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am arwydd 'mynediad i drigolion yn unig' ar gyfer y stryd.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Dim cyfarfod di bod mis yma.

**7. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Neville Hughes am y cyfrifon yn dilyn cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid. Trafodwyd y cyllid ar gyfer y cae chwarae arfaethedig ym Mhant Dreiniog a phenderfynwyd byddai unrhyw gyllid angenrheidiol yn cael ei drosglwyddo o'r pennawd 'Trosglwyddo Asedau a Chyfrifoldebau'.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Dim i'w adrodd.

**9. Lloches bws Braichmelyn**
Yn dilyn derbyn cwynion am y bwriad i dynnu'r lloches oddi ar y safle, y Cyngor am ystyried eu penderfyniad.

**10. Maes Parcio Gerlan**
Wedi derbyn dyfynbris gan Cadarn i baratoi'r dogfennau tendr ar gyfer adeiladu'r maes parcio. Penderfynwyd derbyn y pris.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2019'
**11.1** Llythyr gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft 2020/21. Y Clerc i edrych os oes yna unrhyw newidiadau sy'n effeithio'r Cyngor Cymuned.
**11.2** E-bost gan BT – ymgynghoriad ynglŷn a dileu ciosgau yn yr ardal. Y ciosg wrth Londis ar y rhestr, y Cyngor yn gwrthwynebu. Y Clerc i wirio sefyllfa y ciosg yn Godre'r Gaer, Carneddi.
**11.3** Llythyr gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd – gwahoddiad i'r gwasanaeth Nadolig i ddathlu penblwydd 50 y gymdeithas. I'w gynnal yng Nghapel Carmel dydd Sul 1af o Ragfyr am 3.00yh. Cais hefyd am aelod o'r Cyngor i ddarllen yn y gwasanaeth. Penderfynwyd holi'r Cadeirydd os ydi hi ar gael, ac os ddim bydd y Cyngr. Godfrey Northam neu Pearl Evans am wneud.
**11.4** Llythyr gan Ysgol Penybryn – cais am rodd tuag at costau gwneud ffilm. Y Cyngor yn fodlon cyfrannu £250.
**11.5** E-bost gan y Cyng. Paul Rowlinson ynglŷn a problemau parcio yn Braichmelyn. Yn anffodus does yna ddim safle addas i'w ddatblygu felly yn anodd gwybod beth i'w gynnig i ddatrys y broblem.
**11.6** E-bost gan Mr E Roberts – yn holi am gyfansoddiad Gorffwysfan. Y Clerc i ymateb.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C18/1159/13/AM** | |
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |
| **C19/0546/13/LL** | |
| 88 Ffordd Carneddi, Bethesda | Codi tŷ newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C19/0759/13/CC** | |
| Bron Arfon, Llanllechid | Tocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |
| **C19/0761/13/LL** | |
| Tŷ Dŵr Bach, Gerlan | Newid defnydd adeilad gwaith trin Dŵr Cymru gwag yn fwthyn gwyliau<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C19/0899/13/LL** | |
| 16 Ystad Coetmor, Bethesda | Estyniad deulawr ar gefn y tŷ<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Hydref) | £284.57 |
| CThEM (Hydref) | £71.20 |
| British Gas – Llys Dafydd | £43.55 |
| C Jackson – Mynwent Coetmor | £400.00 |
| Lady Haig's Poppy Factory-torch | £35.00 |